



Adroddiad Arolygu ar gyfer

36 Trinity Ave

Llandudno

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/12/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

36 Trinity Ave

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Lleoedd cofrestredig	5
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	25 Gorffennaf 2019.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel, ac mae ganddynt gydberthynas dda â'r staff sy'n eu cefnogi. Mae trefniadau ar waith i gynnwys y bobl mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth. Gwrandewir ar safbwyntiau'r bobl, a chânt eu parchu. Caiff y bobl eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau unigol ac i chwarae rhan yn y gymuned. Caiff iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl ei hybu, sy'n cefnogi eu hansawdd bywyd.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a chartrefol sy'n diwallu eu hanghenion. Mae ystafell pob unigolyn wedi'i haddurno a'i dodrefnu yn unol â'i ddewisiadau personol, ac yn cynnwys eitemau personol sy'n bwysig iddo. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae systemau ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch y bobl. Mae angen rhoi rhagor o sylw i ran benodol o'r adeilad er mwyn datrys problem arogleuon drwg, y mae'r darparwr yn ceisio mynd i'r afael â hi.

Cynhelir lefelau digonol o staff, a gaiff eu recriwtio'n ddiogel, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Darperir hyfforddiant priodol, ond nid yw pob aelod o'r Taf wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar iechyd meddwl. Mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn gwella dealltwriaeth y staff o gyflyrau iechyd meddwl a'u heffaith bosibl ar fywydau pobl.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd ac i lywio gwelliannau.

Llesiant

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau am eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae dewisiadau ar gael iddynt o ran y ffordd y maent am gael eu cefnogi a sut yr hoffent dreulio eu hamser. Cânt eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth, gwrandewir ar eu safbwyntiau a chânt eu cofnodi. Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael am y gwasanaeth y gall y bobl ddisgwyl ei gael ac maent yn gwybod sut i wneud cwyn, os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae trefniadau ar waith i ofyn i'r bobl yn rheolaidd a ydynt yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael.

Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r bobl yn hoffi byw yn y gwasanaeth ac yn canmol y staff sy'n eu cefnogi. Rhoddir cymorth i alluogi'r bobl i gysylltu â'u ffrindiau a'u teulu yn ogystal â meithrin cydberthnasau newydd â chyd-breswylwyr ac yn y gymuned ehangach.

Caiff iechyd y bobl ei hybu. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gael gafael ar gyngor ar iechyd meddwl a gofal cymdeithasol pan fo angen, sy'n sicrhau bod y bobl yn aros mor iach â phosibl. Caiff y bobl gymorth i gael eu meddyginiaeth, sy'n sicrhau y caiff eu cyflyrau iechyd eu rheoli'n dda. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd bywyd y bobl. Mae asesiadau risg ar waith i reoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y rhain eu diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar waith i alluogi'r bobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u cadw'n ddiogel.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae cymorth ar gael i alluogi'r bobl i ddilyn yr hobiau a'r diddordebau y maent yn eu mwynhau. Caiff y gweithgareddau y mae'r bobl yn hoffi cymryd rhan ynddynt eu cofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae'r lefelau staffio yn galluogi'r staff gofal i dreulio amser gyda'r bobl ar sail un i un i'w helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Mae hyn yn annog y bobl i deimlo'n rhan o'u cymuned.

Ar y cyfan, caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu. Y rheswm dros hyn yw bod gan y bobl gynlluniau personol manwl a chyfredol sy'n helpu'r staff i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Cadarnhaodd y bobl fod y staff yn dangos parch ac wrth law i'w helpu pan fydd angen. Caiff y staff gymorth da gan y rheolwr ac maent yn cwblhau hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'u gwaith yn rheolaidd. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar iechyd meddwl, ac mae hyn yn faes y mae angen ei wella.

Yn gyffredinol, mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu hymdeimlad o lesiant. Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd addas a chartrefol sy'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y bobl. Caiff y rhan fwyaf o ardaloedd y cartref eu cadw'n lân ac yn ffres, ond nid pob un ohonynt. Mae angen gwneud gwelliannau yn un rhan o'r adeilad er mwyn sicrhau bod y bobl yn teimlo'n gysurus.

Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn hyderus bod eu hanghenion unigol yn hysbys ac y cânt eu cofnodi mewn cynlluniau personol cyfredol. Caiff y cynlluniau personol eu llunio ar y cyd â'r bobl, ac maent yn cynnwys eu safbwyntiau personol am y ffordd y maent am gael eu cefnogi. Caiff yr hyn sy'n bwysig i bob unigolyn ei gofnodi, sy'n golygu y caiff y bobl eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel unigolion unigryw. Cofnodir yr hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae cynllun personol pob unigolyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl a chanllawiau clir ar y ffordd y dylai'r staff ei gefnogi. Mae hyn yn cefnogi

parhad y gofal a'r cymorth a gaiff y bobl. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu, fel sy'n ofynnol, a'u diweddarau pan fydd newidiadau i anghenion y bobl. Rhoddir gwybod i gomisiynwyr pan fydd newidiadau sylweddol i amgylchiadau'r bobl a allai effeithio ar eu gallu i gyflawni eu canlyniadau personol.

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion a chyflawni eu canlyniadau personol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd ag anghenion gofal a chymorth y bobl ac yn gwybod sut i'w diwallu. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, a'u bod yn teimlo bod y staff yn eu trin â pharch. Mae asesiadau ar waith ar gyfer risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl, sy'n cofnodi sut y caiff y risgiau eu rheoli.

Caiff iechyd y bobl ei hybu. Mae cyflyrau iechyd unigol yn hysbys a chânt eu cofnodi yn nogfennau gofal y bobl. Gwneir trefniadau i'r bobl weld gweithwyr iechyd proffesiynol pan fydd angen a chaiff canlyniad pob apwyntiad ei gofnodi. Rhoddir cymorth i ddilyn y cyngor a'r canllawiau a roddwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae trefniadau ar waith i'r bobl gael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, sy'n eu helpu i reoli eu cyflyrau iechyd. Lle y bo'n bosibl, caiff y bobl eu hannog i reoli eu meddyginiaeth eu hunain, a chaiff y trefniant hwn ei oruchwylio gan y staff. Mae hyn yn helpu'r bobl i gynnal ymdeimlad o reolaeth dros eu bywydau.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am ddiogelwch y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith sy'n helpu'r staff i amddiffyn y bobl rhag niwed.

Nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Darperir dogfennau allweddol yn Gymraeg, os bydd hyn yn newid yn y dyfodol.

Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n addas ac yn gysurus. Disgrifir yr adeilad a'r cyfleusterau yn y datganiad o ddiben. Mae'r bobl yn fodlon ar eu hystafelloedd eu hunain, sydd wedi'u personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt, fel lluniau a phosteri. Mae dewisiadau ar gael o ran sut y mae pob unigolyn yn dymuno i'w ystafell gael ei haddurno a'i dodrefnu. Mae hyn yn creu naws cartrefol ac yn helpu'r bobl i setlo yn eu hamgylchedd.

Gwneir addasiadau i'r safle mewn ymateb i newidiadau i anghenion y bobl. Er enghraifft, gosodwyd ystafell wlyb yn ddiweddar, sy'n ei gwneud yn haws i'r bobl â symudedd cyfyngedig i gael cawod. Mae hyn yn hyrwyddo urddas ac annibyniaeth y bobl. Gosodwyd ystafell ymolchi yn ystafell unigolyn arall am fod hyn wedi'i nodi'n ddarpariaeth y byddai'n cael budd ohoni.

At ei gilydd, caiff yr amgylchedd ei gadw'n lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Anogir y bobl i gadw eu hystafelloedd eu hunain yn lân, ac mae'r staff yn rhoi cymorth ymarferol mewn perthynas â'r dasg hon pan fo angen. Mae ardaloedd cymunedol y cartref, fel y lolfa a'r heulfan, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae cynlluniau i osod cegin newydd yn fuan. Mae angen rhoi sylw i un rhan benodol o'r adeilad oherwydd arogleuon drwg. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol eisoes wedi nodi hyn fel mater, cyn ein hymweliad. Maent wedi rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater, ond ni fu'r rhain yn llwyddiannus. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch eu rheoli'n briodol. Mae trefniadau ar waith i storio a pharatoi bwyd yn ddiogel. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau, yn ôl yr angen. Caiff y system larwm tân, y system gosodiadau trydanol a'r dyfeisiau nwy eu gwasanaethu, fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd byw diogel.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben ar waith, sy'n disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir a sut y caiff ei ddarparu yn glir. Mae canllaw hawdd ei ddarllen hefyd ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth, sy'n helpu'r bobl i wneud penderfyniad hyddysg am ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae'r ddogfen hon wrthi'n cael ei hadolygu a'i diweddarau.

Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel a'u cefnogi'n dda gan y rheolwr. Caiff gwiriadau cyn cyflogaeth eu cwblhau cyn i aelod newydd o'r staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr. Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y staff yn mynychu cyfarfodydd goruchwylio un i un â'r rheolwr, fel sy'n ofynnol. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol

i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant penodol ar iechyd meddwl. Byddai cwblhau hyfforddiant penodol ar iechyd meddwl yn gwella dealltwriaeth y staff o gyflyrau iechyd meddwl gwahanol a'r effeithiau posibl ar anghenion iechyd y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth a sicrhau y caiff ei redeg yn ddiraffferth, sy'n helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i wirio bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n unol â pholisïau a gweithdrefnau'r darparwr. Caiff yr archwiliadau hyn eu cynnal gan bob aelod o'r staff, y rheolwr a rheolwr ardal dynodedig y darparwr. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan y rheolwr ardal a'r Unigolyn Cyfrifol. Ceir diwylliant agored a thryloyw ar lefel reoli o fod yn awyddus i gydweithio i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, sy'n gwella bywydau'r bobl a gefnogir.

Mae'r bobl yn cael budd o'r prosesau sydd ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ymgynghori â'r preswylwyr a'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Fel rhan o'i ymweliad, caiff dogfennau gofal eu hadolygu, a rhoddir canllawiau adeiladol ar sut y gellir datblygu'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn mynd ati i wneud gwelliannau ym mhob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir, ac mae'r bobl yn cael budd o hyn. Cynhelir adolygiad ffurfiol o ansawdd y gofal ddwywaith y flwyddyn, ac mae'r broses hon yn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn ddiogel ac o ansawdd da. Mae polisi cwynion ar waith yn ogystal â phroses ar gyfer derbyn ac ymateb i gwynion yn briodol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff pob rhan o'r safle ei chadw'n lân. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd y cartref yn lân, ond mae angen gwella'r trefniadau glanhau sydd ar waith yn un ardal benodol, neu osod llawr newydd yn yr ardal hon.	Newydd
36	Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol manwl ar iechyd meddwl.	Newydd

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad Cyhoeddi 27/01/2023